
# Bod yn barod...



### ... am ddigwyddiad

- Pa wahanol ddigwyddiadau neu achlysuron mae'n rhaid bod yn barod ar eu cyfer?
- Meddylia am ddigwyddiad rwyt ti wedi gorfod paratoi ar ei gyfer. Beth oedd rhaid i ti ei wneud i sicrhau dy fod yn barod?
- Pa achlysuron sy'n cymryd y mwyaf o amser i baratoi ar eu cyfer?

### ... ar gyfer cael babi

- Beth sydd raid i bobl ei wneud i baratoi ar gyfer babi newydd?
- Sut allai gwahanol bobl o'r teulu deimlo am fabi newydd yn cyrraedd? Pam wyt ti'n meddwl mae hyn?
- Pa newidiadau sydd raid i bobl eu gwneud yn eu bywydau ar ôl i fabi newydd gyrraedd?

### ... am achlysur mawr

- Pa fath baratoadau wyt ti'n feddwl fyddai eu hangen ar gyfer ymweliad rhywun pwysig i adeilad neu dref?
(Er enghraifft: ymwelaid arlywydd â gwlad arall, neu seren bop yn cynnal cyngerdd.)
- Sut fyddai gwlad neu ddinas yn paratoi ar gyfer ymweliad lot fawr o bobl i ddigwyddiad mawr fel y Gemau Olympaidd neu briodas frenhinol?

### ... am y Nadolig cyntaf

- Sut wyt ti'n meddwl wnaeth Mair a Joseff baratoi eu hunain ar gyfer beth oedd yn mynd i ddigwydd? (Meddylia am ddygymod gyda'r hel clecs, y daith hir, a babi newydd.)
- Beth wyt ti'n meddwl allen nhw ddim paratoi ar ei gyfer? Pam hynny? (Meddylia am yr ymwelwyr, ymateb Herod etc.)
- Roedd y gwŷr doeth wedi bod yn trefnu a pharatoi ar gyfer genedigaeth Iesu am amser hir. Sut ydyn ni'n gwybod hynny?

# ANRHEGION GOBAITH



Meddylia am y bobl hynny yn dy dref sydd efallai'n unig neu drist.

Neu meddylia am bobl o rannau eraill o'r byd y bydde ti'n gweld neu glywed amdanyn nhw ar y newyddion.



Beth wytti'nfeddwlmaenhw'nobeithio amdanofe y Nadolighwn?



Ysgrifennanegesargerdynrhodd neu weddi o obaithirywun neu igrŵp o bobl.

Fe allai fod yn rywun rwyt yn ei adnabod (does dim angen eu henwi) neu'n rhywun rwyt newydd glywed amdanyn nhw.





Rho dygerdyn rhodd yn y bocs Nadolig neu ar y wal arddangos.

GOBAITH Y NADOLIG

GOBAITH Y NADOLIG

GOBAITH Y NADOLIG

# COLOMENNOD HEDDWCH






C Pan fyddi wedi ffraeo gyda rhywun, sut wyt ti'n cymodi â nhw?

C Sut deimlad yw maddau i rywun, neu gael maddeuant gan rywun, am rywbeth gafodd ei ddweud neu'i wneud?

Ysgrifenna neges neu weddi
ar golomen i ddweud sori am
rywbeth na ddylet fod wedi'i
ddweud neu ei wneud.
(Does dim angen enwi neb)
Rho dy weddi ar y lein ddillad





# BALWNAU LLAWENYDD

**C** Pwy neu beth sy'n gwneud iti wenu?
Pwy neu beth sy'n gwneud iti deimlo'n
hapus ac yn fodlon yn ddwfn o'th fewn?


Beth fydd yn dod â llawenydd iti y Nadolig
hwn nad oesrhaid talu arian amdano?







Ar falŵn, ysgrifenna neges neu
weddi o ddiolch am rywun neu
rywbeth sy'n llonnidygalon.



Gosodad y falŵn ar y wal arddangos
neu ar ffon mewn potyn.



# CALONNAU CARIAD

C Sut wyt ti'n gwybod fod pobl yn dy garu ac yn gofalu amdanat?

C Beth wyt ti'n ei wneud i ddangos dy gariad at eraill?


C Sut wyt ti'n mwynhau treulio amser gyda'rrhai rwyt yn eu caru?


Ar galon neu 'post it', ysgrifenna air o ddiolch neu weddi am rywun ti'n ei garu, neu am yr amser rwyt yn ei dreulio gyda nhw.

Gluda dy weddi ar y galon arddangos.



Gallet osod llun o rywun rwyt yn ei garuar y wal arddangos.





# GOLAU AR Y FFORDD

**C** Pwy sydd, neu wedi bod, yn bwysig yn dy fywyd di?

**C** Sut maenhw wedidy helpu a'tharwain?

**C** Wyt ti wedi dweud wrthyn nhw erioed faint rwyt wedi'i ddysgu ganddyn nhw?

Ar gannwyll, ysgrifenna neges neu weddi i ddweud diolch am y person rwyt wedi meddwl amdanyn nhw.





Os nad wyt eisiau eu henwi, fe allet ti esbonio sut wnaethon nhw dy helpu.



Gluda dy weddi ar yr wal arddangos neu ei throi yn gannwyll 3D.







# Cerddi Gobaith



## Fe hoffwn i...

Fe hoffwn i gael tabled,
Fe hoffwn i gael ffôn,
Fe hoffwn i gael x-box,
Os na, fe fydda i yn boen,
Fe hoffwn i gael siocled,
Ac arian yn fy mhwrs,
Er mwyn i mi a'm ffrindiau,
Gael siopa'n y dre, wrth gwrs.

Gobeithio gwellithfy mam-gu
Ac y daw fy chwaer i'r tŷ,
Gobeithio caiff fy nhad i waith,
Byddai'n wych i'n teulu ni.
Does dim dwi eisiau'i weld yn fwy
na thegwch i bawb drwy'r byd,
Rhoidiwedd ar bob rhyfel cas
A heddwch drwy'r ddaear i gyd.

## Beth ywgobaith?

Mae gen iffydd y byddyr
haul codi bob dydd.

Bydd gen irywbethi'wfwytai de.

Dwi'nrhagweld y bydd gen
ilwyth o anrhgionforeNadolig.

Hoffwnfyndi Disneyland.
Fyysgoliyw'rorauyn y byd.

Dwi'noptimistaidd y byddfynhîm
ynennill y gwpan.

Dwi'nbreuddwydio am fodynofodwr.

## Profiad Mair

**G**obeithiol a diolchgar

**O**'r Ysbryd Glân


**B**endithio Duw am...


**A**chubwr byd

**I**esu fydd ei enw

**T**rugaredd a thangnefedd

**H**apusrwydd





# Y CYMRO

RHIFYN NEWYDDION Y BEIBL

## NEWYDDION UNIGRYW I'R BYD

# Y CYMRO

RHIFYN NEWYDDION Y BEIBL

## NEWYDDION O LAWENYDD MAWR



Wyt ti wedi clywed neu ddarllen stori am lawenydd yn ddiweddar?

Oes yna rywbeth wedi digwydd yn dy dref neu bentref sydd wedi gwneud un neu fwy o bobl yn llawen?

Ysgrifenna adroddiad papur newydd yn sôn am y digwyddiad.

- Tyrd o hydifwy o wybodaeth am y digwyddiadrwyt am sgwennuamdano.
- Disgrifiabethddigwyddodd.
- Cofia gynnwys ymateb pobl yn esbonio pam roedd y digwyddiad yn gwneud pobl yn hapus.
- Ydy’r digwyddiad wedi ysbrydoli eraill neu achosi rhywbeth arall i ddigwydd? Cofia roi manylion.

# Profiad y bugeiliaid

Mewn rhai cyfieithiadau o'r Beibl mae'r angylion yn defnyddio'r gair "llawenydd" yn eu neges i'r bugeiliaid.

"Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid"

(Luc, pennod 2, adnodau 10 to 12, beibl.net)

Ysgrifennwch adroddiad papur newydd yn sôn am brofiad y bugeiliaid ac yn adlewyrchu eu llawenydd.

- Sut a phrydwnaeth y bugeiliaidddangodeullawenydd?
- Cofia gynnwys beth ddwedodd y bugeiliad am yr hyn welson nhw a'i glywed.
- Dylet nodi hefyd ymateb pobl welodd y bugeiliaid cyn ac ar ôl eu hymweliad â'r baban newydd.
- Noda safbwyntiau pobl am eni'r baban yma a pham fyddai'n dod â "llawenydd i'r bobl i gyd".

# Elisabeth a Mair

Ar ddechrau Efengyl Luc yn y Beibl, mae'r angel Gabriel yn cyhoeddi fod Elisabeth yn mynd i gael mab bach.
(Luc, pennod 1, adnodau 5 - 25)

Roedd Elisabeth yn perthyni Mair, a phan glywodd Mair ei bod yn mynd i gael babi, Elisabeth oedd y person cyntaf roedd ei sia umynd i'w gweld.
(Luke, chapter 1, verses 39 to 56)

Ysgrifenna adroddiad papur newydd yn sônam y newyddion annisgwyl fod y ddwy yma yn mynd i gael babis.

- Meddylia am y ffeithiau sydd angren sôn amdanyn nhw.
- Disgrifia'r profiadau sy'n gyffredin i'r ddwy.
- Disgrifia'r olygfa pan gwrddon nhw am y tro cyntaf.
- Cofia gynnwys beth ddwedodd y rhai oedd gyda nhw.
- Cofia sôn am lawenydd.

# Stori Ioan

Mae'r pedair efengylyn y Beibl yn disgrifio sut roedd Ioan yn "paratoi'r ffordd ar gyfer Iesu.

Darllena Marc, pennod 1, adnodau 1-8.

Ysgrifenna adroddiad papor newydd ynsôn am hanes Ioan yn bedyddio ynAfon Iorddonen.

•Disgrifia'r olygfa.

•Beth sydd mor arbennig am yr un oedd ar fin dod?

Pam fod newyddion Ioan yn achosi pobl i lawenhau?

•Pa bethau ddwedwyd elli di eu cynnwys?

•Trafoda beth mae pobl yn bwriadu ei wneud ar ôl hyn.

# Carid

1 Corinthiaid pennod 13, adnodau 4

(beibl.net)

Mae cariad yn amyneddgar. Mae cariad yn garedig.
Dydy cariad ddim yn cenfigennu, ddim yn brolio'i hun,
nac yn llawn ohono'i hun.
Dydy cariad ddim yn gwneud pethau anweddus,
tnac yn mynnu ei ffordd ei hun drwy'r adeg.
Dydy e ddim yn digio a phwdu, ac mae'n fodlon
anghofio pan mae rhywun wedi gwneud cam.
Dydy cariad ddim yn mwynhau gweld drygioni – beth
sy'n ei wneud e'n llawen ydy'r gwir.
Mae cariad bob amser yn amddiffyn; mae bob amser yn
credu; bob amser yn gobeithio; bob amser yn dal ati.
Fydd cariad byth yn chwalu. Bydd proffwydoliaethau'n
dod i ben; y tafodau sy'n siarad ieithoedd dieithr yn
tewi; a fydd dim angen geiriau o wybodaeth.

- Pa eiriau a brawddegauyn y darn hwnsy'neglurobethyw cariad?
- Pa eiriau a brawddegausy'negluro bethnadyw cariad?

1 Corinthiaid 13, adnod 13

“Ar hyn o bryd mae gynnoch chi dri peth sy'n aros: ffydd,
gobaith a chariad.Ond y mwya ohonyn nhw ydy cariad.”

Mae'r Beibl yn nodi'n glir mai cariad yw'r peth pwysicaf
yn ôl Duw Dychymyga pe byddai hyn yn digwydd go iawn.
Sut fyddai pethau'n edrych?

